



Annwyl Gynghorwyr,

Yn ôl ym mis (Awst 2023) roedd Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn llwyddiannus mewn cais grant sydd wedi cael ei ddefnyddio i ariannu swyddog prosiect Cerddwyr rhan-amser. Derbyniodd yr Awdurdod £45000 gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU .

Mae'r swyddog penodedig wedi cael y dasg o arwain prosiect newydd Datblygu Adnoddau Gwirfoddol a all gynorthwyo i ddechrau i arolygu'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyfan (PROW).

Yn y tymor hirach rydym yn gobeithio gweld y gwirfoddolwyr penodedig yn ymgymryd â dyletswyddau cynnal a chadw ysgafn yn eu meysydd eu hunain er mwyn helpu i gadw'r rhwydwaith yn hygyrch i bawb.

Mae gan y sir dros 2500km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW), ond mae manylion llwybrau, pontydd, camfeydd, gatiau ac arwyddion ar y rhwydwaith llwybrau mwy gwledig a llwybrau ceffylau dim ond yn rhannol hysbys. Gan weithio mewn partneriaeth â Cherddwyr Cymru, bydd y prosiect newydd yn recriwtio, hyfforddi, paratoi a threfnu gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r Cyngor Sir i arolygu a gwneud man waith cynnal a chadw ar yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus fel ased yn cael ei reoli ar blatfform mapio digidol o'r enw CAMS (System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad). Mae'r system hon wedi'i hehangu er mwyn gallu aseinio tasgau i wirfoddolwyr er mwyn adrodd a chofnodi materion i gefnogi'r prosiect hwn.

Bydd hyfforddiant yn rhan allweddol o gefnogi gwirfoddolwyr i ddefnyddio CAMS, gosod disgwyliadau a sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth gywir a chyfredol o'n rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Tuag at ddiwedd mis Chwefror a mis Mawrth byddwn yn edrych ar gynnal sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein ar draws y sir ar gyfer y rhai sy'n mynegi diddordeb yn y prosiect. Byddwn yn asesu'r angen am hyfforddiant pellach wrth i'r prosiect hwn ddod i ben ac wrth i fwy o dasgau cynnal a chadw gael eu cynnal.

Wrth i ni symud ymlaen ac ymgysylltu â chymunedau a gwirfoddolwyr, byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i hyrwyddo'r prosiect, ac rydym wedi atodi disgrifiad o'r rôl a ffurflen mynegiant o ddiddordeb ar gyfer gwirfoddolwyr i'w rhannu. Mae gan bawb hawliau a chyfrifoldebau yng nghefn gwlad ac mae'r prosiect hwn yn agored i unrhyw un sydd eisiau cymryd rhan.

Mae'r Swyddog Prosiect Cerddwyr sydd newydd ei benodi wedi ymgymryd â logisteg y prosiect a'r rôl o gefnogi gwirfoddolwyr ac mae tudalen brosiect hefyd wedi'i chreu ar wefan y Cerddwyr er mwyn helpu i rannu gwybodaeth, gweler <https://www.ramblers.org.uk/news/pathways-partnership-carmarthenshire>.

Wrth symud ymlaen, os oes unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag Amy Goodwin, Swyddog Prosiect y Cerddwyr (Amy.Goodwin@Ramblers.org.uk).

Cofion gorau

Caroline Ferguson

Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad | Countryside Access Manager
Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol | Local Access Forum Secretariat
Lle a Seilwaith | Place & Infrastructure

Dydw i ddim yn gweithio ar dydd Gwener fel arfer | I do not normally work on a Friday

